**SWYDD WAG CYDLYNYDD CREADIGOL GOGLEDD CYMRU**

**Mae Hijinx, cwmni theatr broffesiynol dim-er-elw, yn castio actorion gydag anabledd dysgu mewn cynyrchiadau gwobrwyol, sy'n teithio'r byd**

**Mae gennym rwydwaith o dros 60+ o actorion wedi'u hyfforddi a dros 100 o gyfranogwyr cymunedol o amgylch Cymru sydd ag anableddau dysgu a datblygu yn cynnwys Syndrom Down, Awtistiaeth a Syndrom Asperger.**

Mae hwn yn gyfle gwych i ymuno â tîm Hijinx, un o brif wneuthurwyr theatr gynhwysol Prydain a darparwyr hyfforddiant perfformiad ar gyfer actorion gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.

Mae Academïau Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformiad proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion gydag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth. Cynhaliwn pum Academi ar draws Cymru, gyda dros 60 actor yn cael hyfforddiant. Mae ein cyrsiau Sylfaen Drama yn rhoi cyfle i ddysgu sgiliau bywyd hanfodol a hyder drwy ddrama, cerddoriaeth a symudiad. Rydym hefyd yn rhedeg dau grŵp theatr i bobl ifanc (Bangor a Chaerdydd), grŵp theatr gymunedol gynhwysol Odyssey a'n band ein hunain Vaguely Artistic.

Yn dilyn heriau Covid-19, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gefnogi ein hactorion a chyfranogwyr i ddychwelyd i hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ein Academi, gweithgareddau cymunedol a chynyrchiadau, yn dilyn dros flwyddyn o ddarpariaeth ddigidol. Rydym yn ymroddedig i greu theatr gyffrous sy'n ymestyn y ffiniau a gaiff ganmoliaeth fawr ar draws y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn cymryd rhan ym mhob cam o'r broses wrth greu a pherfformio eu straeon.

Yn ogystal, byddwn yn datblygu ein rhaglen ffilm, gan hyrwyddo ein hactorion i'r diwydiannau celf a chreadigol yn ehangach, a mireinio ein hyfforddiant cyfathrebu gwobrwyol i ymateb i anghenion ôl-Covid.

Mae Hijinx yn adnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaeth unigol. Rydym yn ymroddedig i lesiant ein staff a thîm llawrydd, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal a denu talent amrywiol o adrannau o'r gymuned sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn y sector diwylliant i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

Mae Hijinx yn deulu. Mae tîm Hijinx yn fach, ond heini, ac yn cyflawni llawer iawn, wedi ei gefnogi gan fand anhygoel o weithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr. Rydym yn datblygu ac annog ein gweithwyr i dyfu yn eu swyddi ac i fod y gorau y gallant fod. Anelwn i gael dull ar y cyd o weithio lle mae staff yn helpu a chefnogi ei gilydd mewn unrhyw ffordd sydd ei angen i sicrhau fod y cwmni yn rhedeg yn llyfn ac yn cyflawni'r gwaith. Os yw hynny'n swnio fel y lle i chi, yna daliwch i ddarllen!

**Y SWYDD**

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio Cydlynydd Creadigol – Gogledd Cymru ran-amser ar gyfer ein hwb yng ngogledd Cymru i gefnogi Academïau Hijinx a gweithgareddau Pawb yn yr ardal hon. Dyma gyfle gwych i ymuno â'r cwmni theatr brysur a chyffrous hwn a chael effaith gadarnhaol.

Mae Cydlynydd y Gogledd yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno ystod gweithgareddau Academi a chymunedol Hijinx yng Ngogledd Cymru yn effeithiol ac yn effeithlon, i gefnogi'r Penaethiaid Adran – gan gynnwys cyrsiau Academi, Sylfaen Drama, a Theatr Pobl Ifanc – i sicrhau eu bod yn cyflwyno profiadau celfyddydol o safon uchel i bawb sy'n cymryd rhan.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cydweithio'n agos â'r Penaethiaid Adran i gefnogi ein holl weithgareddau yng Ngogledd Cymru. Byddant yn weithgar wrth gyflwyno sesiynau ymarferol a chynrychioli Hijinx gyda'n partneriaid rhanbarthol a chymunedol. Byddant hefyd yn darparu arolygaeth lles a diogelu, ac yn rheoli unrhyw dasgau gweinyddol cysylltiedig.

Yn ogystal â chyfranogiad gweithredol yn ein sesiynau byddant yn cefnogi recriwtio ar gyfer ein gweithgareddau, yn meithrin perthnasoedd rhagorol gyda phartneriaid i gynnal ein safonau uchel ar gyfer cyflwyno, gwneud yn siŵr bod ein cyfranogwyr yn cael y gefnogaeth briodol yn ein sesiynau a bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau.

I lwyddo yn y rôl hon, bydd angen i chi ddefnyddio'ch dychymyg i ddatrys problemau a bod yn chwaraewr tîm trefnus, hunan-gyfeiriedig gyda sgiliau cyfathrebu cryf.

Pobl sy'n bwysicaf. Yn ogystal â chymryd rhan weithredol yn ein sesiynau, byddwch yn cefnogi recriwtio ar gyfer ein gweithgareddau, gan wneud yn siŵr bod ein holl gyfranogwyr yn cael y gefnogaeth briodol, a bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau. Chi fydd wyneb ein gweithgareddau yn y Gogledd a bydd angen i chi feithrin perthnasoedd rhagorol gyda phartneriaid cymunedol a rhanbarthol i gynnal ein safonau uchel ar gyfer cyflwyno.

Mae datblygiad proffesiynol yn bwysig; mae ein tîm o Gydlynwyr Creadigol, yn cynnwys Cydlynydd y Gogledd, yn adeiladu profiad a sgil drwy gefnogi a chydweithredu gyda'n tîm eclectig o diwtoriaid llawrydd, artistiaid gwadd a staff pencadlys Hijinx. Cefnogwn aelodau ein tîm yn y pencadlys wrth ddatblygu setiau sgiliau i'w galluogi i wireddu eu swyddi yn gyflawn.

**DISGRIFIAD SWYDD**

| | |
|---|---|
| Teitl Swydd: | **CYDLYNYDD CREADIGOL GOGLEDD CYMRU** |
| Rheolwr Llinell: | Cyfarwyddwr Academi / Pennaeth Pawb |
| Hyd contract: | Parhaol |
| Lleoliad: | Bydd y swydd hon wedi ei leoli yn bennaf ar leoliad gweithgareddau Hijinx ar draws Gogledd Cymru, ar hyn o bryd ym Mangor a Bae Colwyn - caiff peth amser gweinyddol hefyd ei dreulio yn gweithio gartref neu TAPE/Pontio. |
| Cyflog: | £18,400 (£23k FTE) |
| Oriau: | Pedwar diwrnod yr wythnos gyda pheth gwaith gyda'r nos ac ar benwythnosau y rhoddir amser i ffwrdd yn lle ar ei gyfer |
| Hawl gwyliau: | 20 dirnod o wyliau blynyddol (25 diwrnod FTE) ynghyd â gwyliau banc statudol |
| Cyfnod rhybudd: | Un mis o rybudd ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus |
| Diogelu: | Mae'r cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad DBS estynedig. |
| Hawl i weithio: | Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos dogfennau o'u hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig |
| Covid-19: | Mae Hijinx yn annog yn gryf fod yr holl staff, actorion a chyfranogwyr yn cael eu brechlynnau Covid-19 pan gânt eu cynnig. Mae gennym fesurau iechyd a diogelwch llym ar waith i ddiogelu pawb sy'n gweithio gyda Hijinx, yn cynnwys protocolau manwl Covid-19. |
| Tystlythyrau: | Mae pob cynnig o gyflogaeth yn amodol ar dderbyn dau dystlythyr boddhaol. |

**Trosolwg**

Rydym wrth ein bodd fod Academi a Pawb yn ofodau ymarferol, gyda phobl fywiog yn sicrhau fod creadigrwydd wrth graidd ein darpariaeth bob amser. Fel rhan o dimau Academi a Pawb, bydd Cydlynydd y Gogledd yn darparu'r gefnogaeth drefniadol hanfodol gan weithio gyda'r Penaethiaid Adran i gyflwyno ein gweithgareddau hyfforddi. Mae hon yn rôl amrywiol ac ni fydd yr un dau ddiwrnod yr un fath.

Bydd gan Gydlynydd y Gogledd ddealltwriaeth gref o'r sîn greadigol yn y Gogledd ac yn barod i herio Hijinx yn ogystal â chymunedau lleol yn eu syniadau a'u cysylltiadau i

ddatblygu cyfleoedd ystyrlon ar gyfer actorion a chyfranogwyr Hijinx, ein tîm llawrydd a chymunedau'r Gogledd.

Mae Cydlynydd y Gogledd yn gyfrifol am gydlynu ystod gweithgareddau Academi a chymunedol Hijinx yn y Gogledd – yn cynnwys cwrs Sylfaen Drama hyfforddiant Academi a Theatr Pobl ifanc, gan sicrhau eu bod yn darparu profiadau ansawdd uchel i bawb sy'n cymryd rhan. Yn ogystal â gweithio ymarferol, bydd gan Gydlynydd y Gogledd trosolwg llesiant a diogelu a bydd yn cyflwyno'r holl dasgau gweinyddol cysylltiedig mewn ffordd effeithiol ac amserol.

Byddwch yn greadigol wrth ddefnyddio gwybodaeth leol i gefnogi recriwtio ar gyfer ein gweithgareddau ac yn tyfu'n hyderus i fod yn wyneb ein gweithgareddau yn y Gogledd.

## Cyfrifoldebau allweddol

### Gweithgareddau

- Cymryd rhan mewn sesiynau.
- Gweithio gydag adrannau eraill yn Hijinx i ddatblygu prosiectau mewn cysylltiad gyda gweithgaredd Hijinx.
- Datblygu ffyrdd cryf ac unedig o weithio gyda Chydlynwyr Creadigol rhanbarthol eraill Hijinx.
- Cefnogi gweithgareddau i redeg yn llyfn, gan gydweithio gyda thiwtoriaid llawrydd, hwyluswyr, gwirfoddolwyr a gweddill tîm Hijinx.
- Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer gweithgareddau Hijinx yn y Gogledd.
- Cefnogi cyfranogwyr gydag anabledd dysgu a/neu awtistig a lleoliadau ein gweithgaerdd, wrth ddatblygu ymarfer cynhwysol, gan sicrhau hygyrchedd.
- Ymgymryd â gweinyddiaeth dydd-i-ddydd gweithgareddau Hijinx yn y Gogledd – yn cynnwys cynnal cofnodion a chofrestri cywir.
- Sicrhau cyswllt rheolaidd gyda phob gweithgaredd a chyfranogwyr yn y Gogledd.
- Cynnal perthynas waith ragorol gyda chyfranogwyr presennol a phosibl, rhieni/gofalwyr, y tîm llawrydd a gwirfoddolwyr, partneriaid mewn mentrau cymdeithasol, awdurdodau lleol a safleoedd.

### Diogelu, Lles a Llesiant

- Bod yn gyfrifol am ddiogelu, lles a llesiant myfyrwyr a hysbysu'r Cyfarwyddwr Academi/Pennaeth Pawb am unrhyw absenoldebau, problemau sylweddol neu bryderon yn dilyn ein gweithdrefn ar ddiogelu.
- Parhau'n gyfredol a sicrhau cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau Hijinx, yn arbennig rhai'n ymwneud â diogelwch, llesiant a lles cyfranogwyr a gweithwyr llawrydd.
- Monitro gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr parhaol a llawrydd yn y gogledd a sicrhau fod pob hyfforddiant yn gyfredol ac wedi'i gofnodi'n gywir (mewn cysylltiad gyda Chyfarwyddwr Academi a Phennaeth Pawb)

- Gweithio gyda Chyfarwyddwr Academi, Pennaeth Pawb ac adrannau eraill i sicrhau gweithredu arfer gorau yn y Gogledd
- Sicrhau fod holl wiriadau DBS yn gyfredol ar gyfer rhai sy'n gweithio yn y Gogledd, gyda chefnogaeth Gweinyddydd Hijinx.

**Arall**

- Cynrychioli Hijinx i randdeiliaid allanol a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel.
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygiad allanol a ddarperir gan yr elusen.

Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a gaiff eu rhestru ac yn gydnaws gyda'n dull o gydweithio, gall fod angen i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall priodol i'w rôl ac ar gyfarwyddyd eu rheolwr llinell.

| MANYLEB PERSONOL | | |
|---|---|---|
| | Hanfodol | Dymunol |
| Sgiliau a Galluoedd | | |
| Ymarfer creadigol (proffesiynol neu gymdeithasol, heb fod yn gyfyngedig i theatr) | x | |
| Cymhelliant uchel gydag angerdd at y celfyddydau perfformio | x | |
| Gallu i ddatblygu a chynnal perthynas fewnol ac allanol gadarnhaol ar bob lefel | x | |
| Cyfathrebwr effeithlon a diddorol | x | |
| Hyddysg gyda chyfrifiaduron, yn medru dysgu a gweithio gydag amrywiaeth o becynnau meddalwedd swyddfa | x | |
| Dysgwr angerddol sy'n cydnabod pan mae angen dysgu ychwanegol ac yn ymdrechu bob amser i geisio syniadau/dulliau newydd | x | |
| Hunan-gychwynwr trefnus, effeithiol a hyblyg gyda sylw rhagorol i fanylion | x | |
| Gallu i fwrw ati yn syth a gweithio ar brosiectau lluosog ar yr un pryd, yn mwynhau amgylchedd gwaith prysur. | x | |
| Gallu i drin data a gwybodaeth personol mewn modd proffesiynol ac yn unol gyda deddfwriaeth diogelu data | x | |

| | | |
|---|---|---|
| Gallu i ddefnyddio eich cymhelliant eich hun heb fawr o oruchwyliaeth a delio gydag ymholiadau arferol fel y codant gan esgyn at eraill os oes angen | x | |
| Siaradwr Cymraeg | | x |
| Gallu i weithio’n greadigol ac ar y cyd i ddatrys problemau a thrin heriau | x | |
| Gallu i deithio i safleoedd ar draws y Gogledd | x | |
| Profiad | | |
| Profiad o weithio neu hyfforddiant yn y celfyddydau a/neu brofiad o amgylcheddau gwaith creadigol | x | |
| Profiad o ddarparu cefnogaeth weinyddol mewn swydd debyg | x | |
| Profiad o ryngweithio gyda phobl gydag anabledd dysgu mewn lleoliad personol neu broffesiynol | | x |
| Profiad o ddiogelu mewn unrhyw leoliad | | x |
| Profiad mewn bwydo data a chadw cofnodion cywir | x | |
| Profiad mewn llesiant, cefnogi llesiant pobl eraill | x | |
| Agwedd | | |
| Ymroddiad i gynhwysiant a hygyrchedd | x | |
| Trin sefyllfaoedd anodd yn bwyllog a chyfrannu at ffordd ymlaen | x | |
| Dangos sensitifrwydd a pharch at eraill | x | |
| Chwaraewr tîm rhagorol, gydag ymagwedd hyblyg at arferion gwaith | x | |

**I WNEUD CAIS:**

Os credwch eich bod yn ateb gofynion y swydd ac yr hoffech wneud cais, gofynnwn i chi anfon y dilynol atom:

1. **CV** cyfredol yn sôn am eich profiad gwaith hyd yma – gan sicrhau eich bod yn rhoi sylw i brofiad perthnasol, sgiliau a chymwysterau. Anfonwch hyn fel dogfen **Word** os gwelwch yn dda.

2. Dweud wrthym pam mai chi yw’r ymgeisydd cywir a sut y byddech yn mynd ati i gyflawni gofynion y swydd. Gallwch wneud hyn naill ai:
   a) gyda **llythyr eglurhaol** o ddim mwy na 2 ochr. Anfonwch fel dogfen Word os gwelwch yn dda.
   neu
   b) **fideo**, heb fod yn fwy na 3 munud o hyd. Anfonwch fel .mov neu .mp4 os gwelwch yn dda.

3. Llenwi **Ffurflen Monitro Amrywiaeth** – i gael ei llenwi ar-lein yma – gofynnir i chi gadarnhau yn eich llythyr eglurhaol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Dylid anfon ceisiadau at ein hymgynghorydd Adnoddau Dynol hr@hijinx.org.uk erbyn y dyddiad cau.

Bydd ceisiadau yn cau am **17/7/23** am ganol nos a chaiff y rhestr fer ei llunio yn yr wythnos yn dechrau **24/7/23**. Bydd y cyfweliadau'n cael eu trefnu ar gyfer yr wythnos yn dechrau ar **24/7/2023**. Os oes gennych unrhyw ofynion hygrededd, angen unrhyw addasiadau eraill rhesymol neu angen gwybodaeth am y swydd mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar **info@hijinx.org.uk** os gwelwch yn dda.